

Effeithiau camdriniaeth rywiol fel plentyn: Aseiad cyflym o dystiolaeth Adroddiad cryno

Cate Fisher, Alexandra Goldsmith,
Rachel Hurcombe, Claire Soares
Tîm Ymchwil IICSA

Gorffennaf 2017

Ymwadiad

Mae'r adroddiad ymchwil hwn wedi ei baratoi ar gais Cadeirydd a Phanel IICSA.
Barn yr awduron yn unig a fynegir.

Effeithiau camdriniaeth rywiol fel plentyn: Asesiad cyflym o dystiolaeth

Cefndir

Nod yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA neu 'yr Ymchwiliad') yw ymchwilio a yw cyrff cyhoeddus a sefydliadau anwladwriaethol eraill wedi ystyried mewn difrif eu cyfrifoldeb i ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol yng Nghymru a Lloegr, ac i helpu sicrhau bod plant nawr ac yn y dyfodol wedi eu diogelu'n well rhag cam-drin rhywiol. Mae Cam-drin plant yn rhywiol (CSA) yn cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n cynnwys cam-drin gyda chyswllt a heb gyswllt, camfanteisio'n rhywiol ar blentyn (CSE) a pharatoi plentyn ar gyfer cam-drin.

Yn rhan o'i waith, mae'r Ymchwiliad yn ceisio archwilio effeithiau cam-drin plant yn rhywiol ar fywydau dioddefwyr a goroeswyr a'u teuluoedd, yn ogystal â'r effeithiau ar gymdeithas ehangach. Mae'r cwestiynau hyn o berthnasedd trawstoriadol i waith yr Ymchwiliad. Mae ganddynt amlygrwydd penodol ar gyfer ei ymchwiliad 'Atebolrwydd ac lawndal', sy'n archwilio i ba raddau mae gwasanaethau cefnogaeth a phrosesau cyfreithiol cyfredol yn sicrhau atebolrwydd ac iawndal yn effeithiol i ddioddefwyr a goroeswyr.

Roedd dwy nod trosfwaol i'r asesiad cyflym o dystiolaeth (REA) yma:

- i grynhoi'r sylfaen dystiolaeth gyfredol ar gyfer effeithiau CSA ar:
 - ddioddefwyr a goroeswyr trwy gydol cwrs eu bywyd
 - teuluoedd dioddefwyr a goroeswyr
 - cymdeithas ehangach
- i nodi bylchau yn y dystiolaeth ar y materion uchod y gellid eu llenwi trwy ymchwil sylfaenol pellach

Mae'r REA hwn wedi ei baratoi gan Dîm Ymchwil yr Ymchwiliad ar gyfer ystyriaeth gan Gadeirydd a Phanel yr Ymchwiliad. Bydd yr adroddiad dilynol hefyd yn berthnasol ac o ddiddordeb i lunwyr polisi, ymarferwyr ac ymchwilwyr eraill yn gweithio ym maes CSA. Barn yr awduron yn unig a fynegir.

Dull

Defnyddiwyd dull REA i nodi a syntheseiddio tystiolaeth gyfredol parthed y ddau fater trosfwaol a sefydlwyd uchod. Yn dilyn cyfnod peilot, cyflawnwyd chwiliadau o gronfeydd data cyfnodol gydag adolygiad cyfoedion a ffynonellau llenyddiaeth lwyd, gan ddefnyddio set benodedig o dermau chwilio a meini prawf cynhwysiant. Cyflawnwyd y chwiliadau yn ystod Rhagfyr 2016. Blaenoriaethwyd y llenyddiaeth ddilynol, ac yna codio, dadansoddi a syntheseiddio dros 200 o'r astudiaethau mwyaf perthnasol a chadarn ar gyfer yr adroddiad hwn. Mesurwyd eu llymder methodolegol yn defnyddio offeryn asesu ansawdd. Hysbysodd canlyniad y broses hon y pwysau cymharol a roddwyd i bob astudiaeth yn yr adroddiad terfynol. Cyfeirir at astudiaethau atodol mewn sawl lle i roi cyd-destun pellach.

Cyfyngiadau'r sylfaen o dystiolaeth

Cyn ystyried casgliadau'r ymchwil o'r REA hwn, mae'n bwysig nodi ei bod yn dipyn o her, yn ymarferol, i bennu os yw deiliant wedi ei achosi gan CSA, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu os yw yn hytrach yn gysylltiedig iddo mewn rhyw ffordd arall. Mae yna hefyd gyfyngiadau o ran sut y cynhyrchwyd rhywfaint o'r dystiolaeth gyfredol, sy'n golygu na ellir cyffredinolli rhai casgliadau astudiaeth yn hyderus i'r boblogaeth dioddefwyr a goroeswyr ehangach. O ganlyniad, mae llawer o'r dystiolaeth a adolygwyd yn yr REA hwn yn dynodi cyswllt neu berthynas bosibl rhwng CSA a deiliant bywyd neu gyflwr meddygol penodol; ni all ddynodi bod CSA wedi achosi'r deiliant dan ystyriaeth.

Casgliadau ymchwil

1. Effeithiau CSA ar ddiodefwyr a goroeswyr

Dengys yr ymchwil a adolygwyd yn rhan o'r REA hwn fod bod yn ddiodefwyr a goroeswr CSA yn gysylltiedig gyda risg cynyddol o ddeilliannau andwyol ym mhob rhan o fywydau diodefwyr a goroeswyr. Yn ogystal, awgryma ymchwil hydredol tymor hir bod y deilliannau andwyol hyn – mewn nifer o achosion – nid yn unig yn cael eu profi yn y tymor byr a chanolig yn dilyn y cam-drin, ond yn hytrach gallant barhau trwy gydol oes diodefwyr a goroeswr.¹

Yng ngeiriau diodefwyr a goroeswyr, o un o'r astudiaethau ansoddol a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn:

“Gwnaeth yr hyn a wnaeth i mi effeithio ar fy mywyd cyfan, pob perthynas, fy hunaniaeth bersonol a llwybr cyffredinol fy mywyd. Roedd cam-drin rhywiol yn blentyn i'w weld ym mhob agwedd o'm bywyd.”²

“Mae effeithiau beth a ddigwyddodd wedi aros gyda mi, heb driniaeth a heb ei brosesu, trwy gydol fy mywyd. Mae'r difrod o fy mlynnyddoedd cynnar wedi lliwio popeth arall ar bob cam o fy mywyd. Mi wn ei fod yn ymddangos i fod yn ddramatig, ond fel yna mae hi i mi.”³

Gellir grwpio'r deilliannau a gododd o'r astudiaethau a adolygwyd i saith maes, fel y gwelir yn Ffigwr 1 isod.

Ffigwr 1: Meysydd deiliant diodefwyr a goroeswyr CSA â deilliannau enghreifftiol

Iechyd corfforol	Llesiant emosiynol, iechyd meddwl a mewnllyd ymddygiadau	Ymddygiadau allanol	Perthnasau rhyngpersonol	Economaidd-gymdeithasol	Crefydd a chredo ysbrydol	Bregusrwydd i erledigaeth bellach
<ul style="list-style-type: none"> Anafiadau corfforol BMI uchel Problemau yn ymwneud â geni plentyn Problemau meddygol heb esboniad 	<ul style="list-style-type: none"> Tralod emosiynol Trawma/PTSD Gofid Iselder 	<ul style="list-style-type: none"> Camddefnydd o sylweddau Ymddygiadau rhywiol 'perylus' ac amhriodol Troseddu 	<ul style="list-style-type: none"> Lleihad mewn boddhad a sefydlogrwydd perthynas Problemau gydag agosatrwydd a pherthnasau rhiant-plentyn 	<ul style="list-style-type: none"> Cyrhaeddiad addysgol is Diweithdra uwch Ansefydlogrwydd ariannol Digartrefedd 	<ul style="list-style-type: none"> Dadrithiad gyda chrefydd Ffydd fel ffordd o ymdopi 	<ul style="list-style-type: none"> Ail erledigaeth rhywiol mewn plentynod ac oedolaeth Mathau eraill o ail erledigaeth

Mae sut mae'r deilliannau neu effeithiau ym mhob un o'r meysydd hyn yn dod i'r amlwg neu'n chwarae rhan ym mywydau dioddefwyr a goroeswyr yn dilyn cam-drin yn broses gymhleth a deinamig. Mae deilliannau yn y meysydd hyn wedi eu profi i ryngweithio gyda, achosi, gwaethygu neu (mewn rhai achosion) helpu lliniaru deilliannau mewn meysydd eraill. Gall deilliannau ddigwydd, neu ailddigwydd, ar unrhyw gyfnod o gwrs bywyd y dioddefwr a goroeswr. Dim ond oherwydd nad yw dioddefwyr a goroeswyr yn profi deilliant penodol ar un pwynt yn eu bywydau, nid yw hyn yn golygu na fyddant yn ei brofi yn hwyrach.

Nid yw dioddefwyr a goroeswyr yn grŵp unffurf, ac o ganlyniad gall natur ac ehangder goblygiadau CSA fod yn sylweddol wahanol rhwng grwpiau o ddiodefwyr a goroeswyr – ac yn wir rhwng dioddefwyr a goroeswyr unigol. Yn wir, awgryma'r dystiolaeth nad yw'n anochel y bydd dioddefwr a goroeswr yn profi niwed tymor hir arwyddocaol o ganlyniad i CSA. Dywedir bod rhai dioddefwyr a goroeswyr yn arddangos gwytnwch neu sicrhau adferiad yn dilyn CSA os ydynt naill ai'n ymddangos i oroesi heb oblygiadau andwyol difrifol, neu fel arall yn canfod eu ffordd yn ôl i weithrediad 'addasol' neu 'bositif' wedi cyfnod o anhawster (a allai barhau am nifer o flynyddoedd neu hyd yn oed ddegawdau). Awgryma rhai astudiaethau bod lleiafrif o ddiodefwyr a goroeswyr hyd yn oed i weld yn arddangos twf ôl-drawmatig neu addasiad positif yn dilyn erledigaeth CSA.

Archwilir y deilliannau a brofir gan y dioddefwyr a goroeswyr hyn yn fanylach isod.

Iechyd corfforol

Mae profiad o CSA wedi ei gysylltu gydag amrediad eang o ddeilliannau iechyd corfforol andwyol. O ganlyniad i gam-drin treiddiol, gall fod anafiadau corfforol aciwt i'r ardal genhedlol, yn ogystal â heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.⁴ Yn y tymor hirach, mae CSA wedi ei gysylltu i amrediad o salwch ac anabledau: mewn un astudiaeth, roedd un o bob pedwar dioddefwr CSA wedi adrodd salwch neu anabled hirdymor, o gymharu ag un o bob pump o'r boblogaeth yn gyffredinol.⁵

Mae deilliannau iechyd corfforol yn cynnwys indecs màs y corff (BMI) uwch,⁶ problemau calon⁷ a materion o ran rhoi genedigaeth i blant.⁸ Mae ymchwil yn awgrymu fod pobl gyda hanes o CSA yn cael mwy o gyswllt gyda meddygon ac ysbytai – 20 y cant yn uwch na rhai nad ydynt wedi profi CSA⁹ – sy'n gallu bod yn ddangosydd o iechyd corfforol gwael. Mae rhai dioddefwyr a goroeswyr yn adrodd symptomau 'na ellir eu hesbonio'n feddygol', a all gynnwys ymosodiadau nad ydynt yn epileptig¹⁰ a phoen cronig.¹¹

Llesiant emosiynol, iechyd meddwl a mewnoli ymddygiadau

Gall y profiad o CSA gael effaith andwyol ar lesiant emosiynol cyffredinol, gan arwain at ddiffyg hunan-barch a cholli hyder.¹² Mae deilliannau iechyd meddwl/mewnoli ymddygiadau yn cynnwys iselder, anhwylderau gorbryder, anhwylder pryder ôl-drawmatig (PTSD), hunan-niweidio a hunanladdiad, yn ogystal â nifer o anhwylderau iechyd meddwl eraill.¹³

Mae iselder wedi ei ganfod mewn 57 y cant o bobl ifanc sydd wedi profi CSE.¹⁴ Mae'r cynnydd mewn tebygolrwydd o iselder difrifol yn dilyn hanes o CSA wedi i ddangos i fod yn 2.05¹⁵ mewn oedolion ifanc ac 1.83¹⁶ mewn menywod sy'n ddiodefwyr a goroeswyr, o gymharu â grwpiau cymhariaeth. Ymysg diodefwyr a goroeswyr CSE, roedd gan 37 y cant anhwylder gorbryder cyffredinol, 58 y cant anhwylder pryder gwahanu, ac roedd gan 73 y cant PTSD.¹⁷ Mae cyfraddau hunan-niweidio wedi eu dangos i fod mor uchel â 49 y cant ymysg oedolion sy'n oroeswyr yn derbyn triniaeth¹⁸ a 32 y cant ymysg diodefwyr a goroeswyr CSE.¹⁹ Mae'r risg o ddiodefwyr a goroeswyr CSA yn ceisio cyflawni hunanladdiad yn gallu bod cymaint â chwe gwaith yn fwy nag ymysg y boblogaeth yn gyffredinol.²⁰

Mae yna rai gwahaniaethau o ran rhywiau wedi eu nodi yn amledd cyflyrau iechyd meddwl. Yn benodol, dadleuwyd bod benywod yn fwy tebygol o arddangos ymddygiadau mewnoli a dynion yn fwy tebygol o arddangos ymddygiadau allanoli.²¹ Mae ansawdd perthnasau rhyngpersonol wedi profi i fod yn allweddol o ran lliniaru neu waethygu effeithiau CSA ar gyflyrau iechyd meddwl.²²

Ymddygiadau allanoli

Gall dioddefwyr a goroeswyr CSA arddangos amrediad o ymddygiadau allanoli mewn ymateb i'r gamdriniaeth maent wedi profi. Mae'r rhain yn aml yn strategaethau ymdopi camaddasol, a fabwysiadwyd fel ffordd o ddelio gyda neu sicrhau rhyddhad dros dro o drallod y gamdriniaeth, yn cynnwys trallod a achoswyd gan ddeilliannau eraill (fel problemau iechyd meddwl).²³

Gall ymddygiadau a arddangosir yn dilyn CSA amrywio yn ddibynnol ar oed a rhyw'r dioddefwr a goroeswr.²⁴ Fodd bynnag, dim ond tystiolaeth gyfyngedig a welwyd ar ymddygiad plant iau; mae'r rhan fwyaf o ymchwil wedi ffocysu ar ymddygiad mewn glasoed ac i fywyd fel oedolion, yn aml yn arddangos sut y gall ymddygiadau mewn glasoed barhau hyd at fywyd fel oedolion.²⁵

Awgryma ymchwil fod CSA yn gysylltiedig gyda risg cynyddol o ymddygiadau allanoli, yn cynnwys anhwylder ymddygiad, camddefnydd o sylweddau, ymddygiadau amhriodol neu 'llawn risg', ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau.²⁶ Yn ogystal, canfu un astudiaeth fod dioddefwyr a goroeswyr ifanc hyd at 12 gwaith yn fwy tebygol na grwpiau cymhariaeth i adrodd anhwylder ymddygiad.²⁷

Mae dioddefwyr a goroeswyr wedi eu canfod i fod 1.4 gwaith yn fwy tebygol o gael cyswllt gyda'r heddlu, a bron i bum gwaith yn fwy tebygol i gael eu cyhuddo o drosedd, na'r rhai nad ydynt wedi profi CSA.²⁸

Gall ymddygiadau allanoli fod yn ddangosydd o CSA, ac yn fodd o gyfathrebu fod rhywbeth o'i le ac arwyddo bod angen cymorth.²⁹ Mae perthnasau teuluol cefnogol a lefelau cynyddol o addysg ymysg dioddefwyr a goroeswyr wedi eu canfod i leihau'r risg o'r ymddygiadau camaddasol hyn.³⁰

Perthnasau rhyngpersonol

Gall CSA gael effaith ddwys ar allu dioddefwyr a goroeswyr i ffurfio ac/neu gynnal perthnasau positif. Dim ond 17 y cant o oroeswyr CSA a ddywedir i fod ag arddull ymlyniad sicr,³¹ sy'n bwysig i ffurfio cysylltiadau emosiynol cryf, ymddygiadau a rhyngweithiadau rhwng pobl.

Mae un o'r themâu amlycaf i godi yn yr adran hon yn ymwneud ag effeithiau CSA ar berthnasau agos. Mae risg cynyddol i ddiodeswyr a goroeswyr o brofi problemau fel diffyg sefydlogrwydd mewn perthynas, trais rhyngpersonol a thrafferthion rywiol.³² Gall effeithiau iechyd ac ymddygiadol hefyd effeithio'n negyddol ar berthnasau agos.³³

Parthed perthnasau rhwng rhieni a phlant, awgryma'r dystiolaeth y gall cael plant gael effaith positif ar ddiodeswyr a goroeswyr a hyd yn oed helpu eu hadferiad.³⁴ Fodd bynnag, gall y rôl o rianta hefyd ysgogi amrediad o emosiynau a rhoi cychwyn ar arferion rianta penodol a all achosi niwed yn y pen draw i'r berthynas rhwng y riant a'r plentyn. Gall deilliannau rianta negyddol hefyd godi o ganlyniad i ddiffyg cred neu hyder mewnol goroeswyr yn eu gallu eu hunain i rianta.³⁵ Gall hyn gael ei waethygu os yw unigolion hefyd yn dioddef o iselder.³⁶

Gellir gweld tueddfryd rhyw amlwg yn y llenyddiaeth yn gysylltiedig â pherthnasau rhyngpersonol – yn arbennig felly rhwng riant a phlentyn. Er enghraifft, mae astudiaethau yn edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig gydag arferion rianta 'negyddol' diodeswyr a goroeswyr CSA yn dueddol o ffocysu ar famau.³⁷

Canlyniadau economaidd-gymdeithasol

Mae yna dystiolaeth o gysylltiad parhaus rhwng CSA a lleihad mewn cyfleon bywyd sy'n cychwyn yn ystod blynyddoedd ysgol ac yn ymestyn ymhell i fywyd fel oedolion gan effeithio ar gyrhaeddiad addysgol, cyfraddau cyflogaeth a lefelau incwm dioddefwyr a goroeswyr.

Mae CSA wedi bod yn gysylltiedig â lleihad cyffredinol mewn ymgysylltu addysgol a chyrhaeddiad yn yr ysgol ac mewn addysg uwch/bellach.³⁸ Fodd bynnag, mewn rhai achosion unigol, mae hefyd wedi ei gysylltu â chyrhaeddiad cynyddol.³⁹ Yn yr achosion hyn, fe ymddengys bod ymgysylltu addysgol yn gweithredu fel strategaeth ymdopi ar gyfer delio gyda – neu ddianc yn feddyliol a chorfforol oddi wrth – y cam-drin.

Mae CSA hefyd wedi ei gysylltu gyda chynnydd mewn diweithdra/amser allan o'r farchnad lafur,⁴⁰ cynnydd mewn derbyniad o fudd-daliadau lles,⁴¹ incwm is⁴² a mwy o ansefydlogrwydd ariannol.⁴³ Awgryma'r dystiolaeth y gallai iechyd corfforol neu feddyliol wael fod y cyswllt thwng CSA a deilliannau economaidd-gymdeithasol is mewn nifer o achosion.⁴⁴ Fel gydag addysg, mae'n bwysig cydnabod bod rhai dioddefwyr a goroeswyr yn defnyddio cyflawniad mewn gwaith a gyrfa, neu 'orweithio', fel modd o ymdopi gyda sgil-ffeithiau cam-drin, yn cynnwys effeithiau seicolegol fel diffyg hunan-barch.⁴⁵

Mae astudiaethau diweddar sydd wedi archwilio'r cysylltiadau rhwng CSA a digartrefedd yn gyfyngedig o ran nifer ac ansawdd. Mae'r rhai sy'n bodoli yn awgrymu cysylltiadau posibl rhwng erledigaeth CSA a materion digartrefedd/tai yn ystod ieuencid⁴⁶ ac oedolaeth,⁴⁷ gan awgrymu bod angen ymchwil pellach ar hyn.

Crefydd a chredo ysbrydol

Awgryma'r dystiolaeth bod teimladau o ddadrihiad gyda chrefydd a chredo ysbrydol yn gyffredin ymysg dioddefwyr a goroeswyr yn dilyn CSA, gyda dioddefwyr yn adrodd teimlo eu bod wedi eu gadael neu gosbi gan dduw creulon.⁴⁸

Mae astudiaethau ar effeithiau CSA a gyflawnir gan glerigwyr yr eglwys yn sôn mewn termau arbennig o gryf am y "difrod ysbrydol" a "dryswch ysbrydol dwys" sy'n gallu codi pan fydd y cam-drin wedi ei gyflawni gan rywun sy'n un o gynrychiolwyr Duw yn nhyb y dioddefwr – profiad sy'n gallu achosi i ddiodeffwyr a goroeswyr gwestiynu cyfanrwydd eu systemau credo a'u ffordd o ddeall y byd.⁴⁹ Awgryma'r llenyddiaeth y gall yr effeithiau hyn fod wedi eu gwaethygu gan ymatebion yr eglwys, sy'n isafu neu wadu'r CSA, neu'n gofyn i ddiodeffwyr faddau i'r rhai a gyflawnodd y cam-drin.⁵⁰

I raddau llai helaeth, mae rôl ffydd fel ffordd i ymdopi a ffactor amddiffynnol ar gyfer gwynnwch ac adferiad hefyd wedi codi o'r astudiaethau a adolygwyd.⁵¹

Bregusrwydd i erledigaeth bellach

Dengys y dystiolaeth y gall dioddefwyr a goroeswyr CSA fod yn agored i erledigaeth bellach ddilynol, ac y gallant fod ddwy i bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddiodeffwyr eto o gymharu â'r tebygolrwydd y bydd rhai nad ydynt wedi profi CSA yn dod yn ddiodeffwyr am y tro cyntaf.⁵² Mae deilliannau iechyd ac ymddygiadol CSA wedi eu canfod i gynyddu bregusrwydd diodeffwyr a goroeswyr i erledigaeth bellach (er enghraifft, PTSD a theimlad o hunan feio).⁵³

Gall erledigaeth bellach fod ar sawl ffurf, ac nid yw'n gyfyngedig i erledigaeth rywiol. Er enghraifft, mae diodeffwyr a goroeswyr CSA wedi eu canfod i fod ddwywaith mor debygol â'r rhai heb brofiad o CSA i gael eu cam-drin yn gorfforol yn ystod glaswed neu oedolaeth gynnar.⁵⁴

Awgryma'r ymchwil bod yna berthynas gymhleth rhwng yr erledigaeth gyntaf a dilynol, ac mae rhywfaint o ymchwil yn awgrymu y dylid deall ail erledigaeth dioddefwyr CSA fel cyflwr bythol, yn hytrach nag yn nhermau digwyddiadau unigol neu gyfnodol.⁵⁵

Deilliannau yn ôl camau bywyd a rhyw

Tra bod yr astudiaethau a adolygwyd yn awgrymu bod yna gryn amrywiaeth yn y deilliannau ac effeithiau ar lefel is-grŵp a'r dioddefwr a goroeswr unigol, mae'n heriol i wneud casgliadau o'r sylfaen dystiolaeth gyfredol ynghylch sut mae'r deilliannau hyn yn amrywio yn ôl demograffeg a nodweddion eraill. Mae'r casgliadau ymchwil a adolygwyd yn galluogi llunio casgliadau petrus yn unig ynghylch gwahaniaethau yng nghanau bywyd a rhyw dioddefwyr a goroeswyr.

Gan ddilyn ymagwedd ddatblygiadol, awgryma'r dystiolaeth fod deilliannau penodol ddim ond yn berthnasol ar gyfer – neu ddim ond yn codi yn ystod – cyfnodau bywyd penodol. Er enghraifft, mae anafiadau corfforol yn deillio o CSA,⁵⁶ cychwyn glasoed cynnar,⁵⁷ anhwylderau ymddygiad,⁵⁸ ymddygiadau rhywiol amhriodol⁵⁹ a chyrhaeddiad addysgol isel⁶⁰ yn fwy amlwg ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr yn ystod plentyndod a glasoed, tra bod cyflyrau iechyd corfforol cronig mwy tymor hir,⁶¹ heriau parthed agosrwydd emosiynol a rhywiol a pherthnasau rhyngpersonol,⁶² a materion cyflogaeth⁶³ yn dueddol o effeithio ar ddiodeswyr a goroeswyr hyd oedolaeth. Mae amrywiol ddeilliannau, fel cyflyrau iechyd meddwl, yn cynnwys PTSD a gorbryder⁶⁴ a bregusrwydd cynyddol i ail erledigaeth rywiol,⁶⁵ wedi ei gweld i fod yn gyffredin ar draws pob cam bywyd.

Ble ceir diffyg tystiolaeth o gyswllt rhwng CSA a deilliant yn ystod cyfnod bywyd penodol, nid yw o reidrwydd yn brawf nad oes risg cynyddol i'r unigolyn o'r deilliant hwnnw yn ystod y cyfnod bywyd dan sylw. Yn hytrach, mae'n bosibl nad oes astudiaethau yn archwilio'r mater hwn wedi eu cyflawni eto.

Gellir hefyd nodi gwahaniaethau mewn deilliannau yn ôl rhyw dioddefwyr a goroeswyr yn yr ymchwil a adolygwyd, er mewn rhai achosion mae casgliadau yn gwrthdweud ei gilydd, ac mae diffyg tystiolaeth benodol ar ddiodeswyr a goroeswyr gwrywaidd yn ei gwneud yn anodd llunio casgliadau cadarn. Mae'r deilliannau y mae'r dystiolaeth yn awgrymu i fod yn wahanol o ran rhywedd yn cynnwys y rhai'n ymwneud â chyflyrau iechyd meddwl,⁶⁶ ymddygiad mewnoli ac allanoli,⁶⁷ troseddu,⁶⁸ perthnasau agos a rhywioldeb,⁶⁹ a beichiogrwydd a genedigaeth.⁷⁰

Gwytnwch ac adferiad: risg a ffactorau amddiffynnol ac ysgogwyr

Defnyddir y cysyniadau o wytnwch ac adferiad i ddisgrifio sut gall diodeswyr a goroeswyr cynnal neu adfer lefel iach o weithrediad yn dilyn CSA.⁷¹ Dywedir bod unigolion gwydn yn cynnal lefelau cymharol iach o weithredu yn dilyn digwyddiad trawmatig posibl. Mae adferiad, ar y llaw arall, wedi ei nodweddu gan ddirywiad sylweddol mewn llesiant yn syth wedi'r digwyddiadau trawmatig; gall y dirywiad hwn barhau am nifer o fisoedd, blynyddoedd neu hyd yn oed ddegawdau. Yn dilyn hyn, mae yna welliant graddol mewn gweithrediad a lleihad mewn symptomau, nes bydd yr unigolyn yn cyflawni lefel o weithrediad a llesiant sydd fwy neu lai'n gymharol i'r hyn a brofwyd cyn y trawma. Credir bod gwytnwch ac adferiad yn gyflyrau deinamig yn hytrach na statig, a bod rhyngweithio'r unigolyn gyda'r amgylchedd cymdeithasol yn dylanwadu arnynt.⁷²

Mae nifer o ffactorau risg/amddiffynnol wedi eu nodi a allai gynyddu neu leihau'r tebygolrwydd o ddiodefwyr a goroeswyr yn profi gwynwch neu adferiad yn dilyn CSA. Mae'r ffactorau risg ac amddiffynnol yn cynnwys:

- nodweddion y diodefwyr a goroeswr unigol (er enghraifft, emosiynau, credoau ac agweddu)⁷³
- amgylchiadau'r cam-drin (er enghraifft, hunaniaeth y cyflawnwr, oed pan gychwynnodd)⁷⁴
- perthnasau rhyngbersonol ac amgylchedd uniongyrchol y diodefwyr a goroeswr (er enghraifft, agweddu'r rhai sy'n darparu gofal,⁷⁵ partneriaid a chyfoedion;⁷⁶ profiadau o rianta⁷⁷)
- cyd-destun cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach y diodefwyr a goroeswr (er enghraifft, profiadau o ddatgeliad i weithwyr proffesiynol,⁷⁸ profiadau o wasanaethau eraill, fel addysg⁷⁹ a gofal iechyd⁸⁰)

Yn ogystal â'r ffactorau risg ac amddiffynnol tymor hirach hyn, gall sefyllfaoedd, digwyddiadau neu deimladau mwy tymor byr penodol (ail) ysgogi'r trawma sy'n gysylltiedig gyda CSA ar gyfer diodefwyr a goroeswyr. Gall y sefyllfaoedd hyn achosi i emosiynau trallodus ac atgofion trawmatig ailgodi, a gallant achosi i ddiodefwyr a goroeswyr deimlo fel petaent yn ôl mewn sefyllfa o gam-drin, gan aflonyddu ar wytnwch ac adferiad.⁸¹

Mae nodweddion cyffredin sefyllfaoedd ysgogi a nodwyd yn y llenyddiaeth yn cynnwys:

- cyswllt corfforol neu rywiol
- teimlo'n ddi-rym neu fregus
- gorfod siarad ynghylch neu gofio profiadau cam-drin
- gweld rhywbeth, neu arogl rhywbeth sy'n atgoffa diodefwyr a goroeswyr o'r CSA

Mae sefyllfaoedd ysgogi penodol yn cynnwys archwiliadau meddygol a deintyddol⁸²; genedigaeth⁸³; dod i gysylltiad â'r cyflawnwr yn dilyn cam-drin⁸⁴; therapi⁸⁵; gweithgarwch rhywiol⁸⁶; mynd trwy achosion cyfreithiol yn gysylltiedig â'r CSA⁸⁷; ei blentyn/phlentyn ei hun yn profi CSA⁸⁸; a'r angen i geisio cefnogaeth emosiynol.⁸⁹

Yn benodol, mae'r profiad o roi genedigaeth wedi ei ganfod i fod yn drawmatig iawn i rai diodefwyr a goroeswyr benywaidd.⁹⁰ Tra'u bod dan risg cynyddol o ddatgysylltiad a materion iechyd meddwl amenedigol, gall ymarfer sensitif a gofalgargan weithwyr meddygol helpu lleihau'r risgiau y bydd deilliannau hyn yn digwydd.⁹¹

Rôl cymdeithas ehangach

Gall ymateb cymdeithas i ddiodefwyr CSA effeithio ar eu gwynwch ac adferiad mewn sawl ffordd, er enghraifft trwy uchafu ffactorau amddiffynnol neu (ail) ysgogi profiadau trawmatig. Er nad yw'n rhestr hollgynhwysol, mae'r adolygiad hwn wedi nodi nifer o ddulliau ble gallai cymdeithas fod yn helpu neu lesteirio gwynwch ac adferiad o fewn y grŵp hwn.

Gall ymatebion nad ydynt yn gefnogol gan ddarparwyr gofal neu weithwyr proffesiynol i ddatgeliad o CSA waethygu teimladau diodefwyr a goroeswyr o euogrwydd a chywilydd, a gallant eu hatal rhag ceisio cefnogaeth yn y dyfodol.⁹² Mae ymatebion cefnogol i ddatgeliad,⁹³ a pherthnasau cefnogol,⁹⁴ wedi eu canfod i fod yn ffactorau arwyddocaol o ran hyrwyddo adferiad.

Awgryma'r ymchwil fod gwasanaethau cefnogaeth arbenigol yn dilyn CSA yn debygol o fod yn fwy effeithiol os ydynt wedi eu teilwra i anghenion is-grwpiau penodol o ddiodefwyr a goroeswyr,⁹⁵ ac yn seiliedig ar asesiad o anghenion yr unigolyn.⁹⁶ Mae astudiaethau wedi canfod nad yw argaeledd gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc yn brin o'r galw.⁹⁷ Gall ymatebion amhriodol gan wasanaethau waethygu effeithiau CSA a chreu mwy o risg i ddiodefwyr a goroeswyr.⁹⁸

Gall gwasanaethau ehangach yn cynnwys iechyd,⁹⁹ gwasanaethau cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol,¹⁰⁰ a gwasanaethau trais domestig a chamddefnydd o sylweddau,¹⁰¹ gefnogi cleifion neu gleientiaid gyda hanes o CSA trwy gynnig ymarfer sensitif sy'n darparu ar gyfer anghenion unigolion ac yn osgoi ysgogi trawma.

Gall cyfranogiad yn y broses gyfiawnder troseddol fod yn ffactor risg ar gyfer profi niwed yn dilyn CSA,¹⁰² er y gall ymarfer sensitif gan weithwyr proffesiynol helpu lliniaru'r effeithiau hynny.¹⁰³ Gall ofn beio ac achosi trawma o'r newydd atal diodefwyr a goroeswyr rhag ceisio atebolrwydd ac unioniad ar gyfer CSA.¹⁰⁴ Mae yna duedd diweddar wedi codi'n rhyngwladol ar gyfer newidiadau deddfwriaethol a pholis sy'n ceisio gwella mynediad diodefwyr a goroeswyr at gyfiawnder.¹⁰⁵

2. Effeithiau CSA ar deuluoedd diodefwyr a goroeswyr

Dengys dystiolaeth nad yw CSA yn effeithio ar fywydau diodefwyr a goroeswyr yn unig, ond gall hefyd gael effeithiau andwyol ar eu teuluoedd.¹⁰⁶ Mae'r effeithiau a brofir gan rieni nad ydynt y troseddwr – ac, yn benodol, ar famau – o ganlyniad i erledigaeth CSA eu plant, yn adlewyrchu'r deilliannau a brofir gan ddiodefwyr a goroeswyr.¹⁰⁷ Gall CSA effeithio ar bob agwedd o fywydau rhieni, yn cynnwys meysydd fel perthnasau rhyngbersonol, cyflogaeth a sefydlogrwydd ariannol, yn ystod y tymor canolig i hir.¹⁰⁸ Canfuwyd bod cyfraddau trawma (yn yr achos hwn ar ffurf trawma 'eilaidd' neu 'ddirprwyol') a thralod emosiynol yn uchel ymysg rhieni nad oeddynt yn droseddwr.¹⁰⁹

Gall rhieni deimlo ei bod yn her cefnogi plentyn sydd wedi ei erlid mewn cyfnod pan fydd yn ei chael yn anodd ymdopi gyda'r straen emosiynol ac ymarfer ei hun yn dilyn CSA. Gall hyn greu cylch dieflig ble mae'r gefnogaeth y gall rhieni ddarparu i'r plentyn wedi ei gyfaddawdu, gan leihau'r gobaith y bydd plentyn yn profi gwytnwch neu adferiad.¹¹⁰

Canfuwyd dystiolaeth finimol ar effeithiau CSA ar sibliogiaid a phartneriaid diodefwyr a goroeswyr, er bod yr hyn a ganfuwyd yn awgrymu y gall CSA hefyd gael effaith andwyol ar y grwpiau hyn.¹¹¹ Yn benodol, canfuwyd bod sibliogiaid diodefwyr CSA sy'n blant nad ydynt yn gyflawnwyr cam-drin yn profi problemau iechyd meddwl/ymddygiadau mewnoli ac ymddygiadau allanol tebyg i'r rhai y mae diodefwyr a goroeswyr yn eu profi, yn cynnwys iselder a gorbryder. Maent hefyd wedi eu canfod i ddiodef effeithiau terfysg, straen a dirywiad teuluol wedi darganfod CSA.¹¹²

3. Effeithiau CSA ar gymdeithas yn ehangach

Dengys ymchwil y gall CSA hefyd effeithio ar gymdeithas yn ehangach, trwy gynydd mewn nifer sy'n derbyn neu ddefnydd o wasanaethau cyhoeddus gan ddiodefwyr a goroeswyr a gan gyflawnwyr. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus hyn yn cynnwys y system cyfiawnder troseddol, system gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, system budd-daliadau lles a darpariaeth addysg arbennig.¹¹³

Cyfrifodd astudiaeth gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) bod CSA yn costio £3 biliwn y flwyddyn i'r Deyrnas Unedig (prisiau 2012/13).¹¹⁴ O gyfanswm yr amcangyfrif cost yma, roedd y rhan fwyaf – oddeutu £2.7 biliwn – o bell ffordd yn gysylltiedig i golli cynhyrchiant yn y farchnad lafur oherwydd diweithdra uwch ac incwm is ymysg diodefwyr a goroeswyr. Roedd gweddill y cyfanswm yma – tua £424 miliwn – yn bennaf yn ymwneud â chostau i bwrs y wlad yn deillio o ddarparu iechyd, cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymdeithasol plant.

Ceisiodd yr NSPCC hefyd roi pris ar gostau dynol ac emosiynol CSA i ddiodefwyr a goroeswyr.¹¹⁵ Roeddynt yn amcangyfrif bod y costau dynol ac emosiynol a brofir gan ddiodefwyr a goroeswyr yn y Deyrnas Unedig yn cyfateb i tua £38 biliwn yn flynyddol (prisiau 2012/13). Er y gellid dadlau a all unrhyw fethodoleg roi pris ar boen a diodefaint dynol mewn ffordd ystyrlon, mae'r ffigwr hwn yn ddefnyddiol ar gyfer pwysleisio pa mor arwyddocaol yw effeithiau CSA ar lefel bersonol a chymdeithasol.

Awgryma tystiolaeth bod effeithiau atodol ar gymdeithas ehangach yn cynnwys newidiadau mewn dehongliadau o sefydliadau ble mae CSA wedi digwydd ymysg grwpiau penodol,¹¹⁶ a thrallod emosiynol a brofir gan blant sy'n gweld delweddau anwedus o blant eraill ar-lein yn ddamweiniol.¹¹⁷

Casgliadau a bylchau tystiolaeth

Er y byddai ymchwil pellach yn werthfawr mewn meysydd penodol, ar y cyfan mae'r dystiolaeth yn gymhellol fod CSA yn gysylltiedig gyda risg cynyddol o ddeilliannau andwyol ym mron bob agwedd o fywydau diodefwyr a goroeswyr, a gall y risg yma barhau ar hyd eu hoes. Mae gan y niwed yma hefyd effeithiau ymlaen ar gyfer aelodau teulu diodefwyr a goroeswyr, ac ar gyfer cymdeithas ehangach mewn ffyrdd ariannol a llai diriaethol. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a adolygwyd, fodd bynnag, nad yw effeithiau andwyol cynaliadwy yn anochel. Mae gwytnwch ac adferiad yn bosibl ar gyfer diodefwyr a goroeswyr, ac mae nifer o ffactorau amddiffynnol wedi eu nodi sy'n cynyddu eu tebygolrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys derbyn gwasanaethau cefnogaeth effeithiol ac ymateb positif a sensitif gan deulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol yn dilyn datgeliad o CSA.

Er gwaethaf ehangder y dystiolaeth sydd ar gael ar y mater hwn, mae'r adolygiad hwn, fodd bynnag, wedi nodi amrediad eang o fylchau mewn gwybodaeth am effeithiau CSA, y modd mae'r effeithiau hynny yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau o ddiodefwyr a goroeswyr, a'r risgiau a ffactorau amddiffynnol sy'n gallu amharu ar neu hyrwyddo gwytnwch ac adferiad.

Ym marn awduron yr adolygiad hwn, a pharthed y cwestiynau ymchwil a nodwyd ym Mhennod 1, mae'r bylchau tystiolaeth allweddol yn cynnwys:

Effeithiau CSA

- effeithiau CSA ar ddiodefwyr a goroeswyr iau (cyn glasoed) a hŷn (dros 65), yn ogystal â duon a lleiafrifoedd ethnig (BME), pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol (LGBT) a phobl anabl
- effeithiau CSA ar ddiodefwyr a goroeswyr gwrywaidd, ac ar dadau diodefwyr a goroeswyr nad ydynt yn cam-dri
- effeithiau CSA ar sibliogiaid, partneriaid a phlant diodefwyr a goroeswyr
- effeithiau CSA a hwylusir ar-lein, yn arbennig achosion yn ymwneud â pharatoi ar-lein, ffrydio cam-drin yn fyw, a chreu a dosbarthu delweddau anwedus ar-lein
- unrhyw wahaniaethau yn effeithiau CSA sefydliadol ac/neu CSA ble bu methiant sefydliadol, o gymharu gyda CSA ble nad oes methiannau sefydliadol
- unrhyw wahaniaethau mewn effeithiau yn dilyn CSA a gyflawnwyd gan gyfoedion ('cam-drin gan gyfoedion') o gymharu gyda'r hyn a gyflawnwyd gan oedolion
- llwybrau diodefwyr a goroeswyr sy'n galw am ymchwil arhydol, sy'n dilyn diodefwyr a goroeswyr yn ystod y tymor hir ac yn casglu data ar eu hamgylchiadau a deilliannau ar bwyntiau allweddol o'u bywydau

Ffactorau risg ac amddiffynnol

- y mecanweithiau niwroffolegol sy'n dylanwadu ar wytnwch yn dilyn CSA
- dylanwad cymharol gwahanol ffactorau risg ac amddiffynnol yn dilyn CSA ar wytnwch ac adferiad, ac os a sut mae'r dylanwad cymharol hwnnw yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau o ddioddefwyr a goroeswyr ac ar wahanol gyfnodau mewn bywyd
- sut mae ffactorau risg ac amddiffynnol unigol yn rhyngweithio
- y dulliau mwyaf effeithiol i gymdeithas gefnogi gwytnwch ac adferiad ymysg dioddefwyr a goroeswyr CSA trwy leihau ffactorau risg ac uchafu ffactorau amddiffynnol

Mae yna hefyd ddiffyg cyffredinol o astudiaethau o safon uchel sy'n defnyddio samplau tebygolrwydd ar hap a grwpiau cymharu wedi eu paru i ddod i gasgliadau ynghylch amllder cymharol deilliannau diddordeb ymysg dioddefwyr a goroeswyr, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Byddai astudiaethau pellach o'r math yma, ynghyd ag astudiaethau arhydol sy'n caniatáu ar gyfer archwilio llwybrau dioddefwyr a goroeswyr ar hyd eu hoes, yn ychwanegu gwerth arwyddocaol i'r sylfaen dystiolaeth ar effeithiau CSA.

- 1 Mewn geiriau eraill, y misoedd a blynyddoedd cyntaf yn dilyn cychwyn y cam-drin.
- 2 One In Four (2015) *Survivors' voices: breaking the silence on living with the impact of child sexual abuse in the family environment*, p.16
- 3 *Ibid.*, p.24
- 4 Heger, A., Ticson, L., Velasquez, O., and Bernier, R. (2002) Children referred for possible sexual abuse: medical findings in 2,384 children. *Child Abuse and Neglect*, 26, pp.645-659
- 5 Allnock, D., Hynes, P., and Archibald, M. (2015) Self-reported experiences of therapy following child sexual abuse: messages from a retrospective survey of adult survivors. *Journal of Social Work*, 15(2), pp.115-137
- 6 Trickett, P. K., Noll, J. G., and Putnam, F. W. (2011) The impact of sexual abuse on female development: Lessons from a multigenerational, longitudinal research study. *Development and Psychopathology*, 23 (2), pp.453-476; McCarthy-Jones, S., and McCarthy-Jones, R. (2014) Body mass index and anxiety/depression as mediators of the effects of child sexual and physical abuse on physical health disorders in women. *Child Abuse & Neglect*, 38(12), pp.2007-2020; Havig, K. (2008) The health care experiences of adult survivors of child sexual abuse: A systematic review of evidence on sensitive practice. *Trauma, Violence, & Abuse*, 9(1), pp.19-33; Mamun, A. A., Lawlor, D. A., O'Callaghan, M. J., Bor, W., Williams, G. M., and Najman, J. M. (2007) Does childhood sexual abuse predict young adult's BMI? A birth cohort study. *Obesity*, 15(8), pp.2103-2110; Richardson, A. S., Dietz, W. H., and Gordon-Larsen, P. (2014) The association between childhood sexual and physical abuse with incident adult severe obesity across 13 years of the National Longitudinal Study of Adolescent Health. *Pediatric Obesity*, 9(5), pp.351-361
- 7 Kamiya, Y., Timonen, V., and Kenny, R. A. (2016) The impact of childhood sexual abuse on the mental and physical health, and healthcare utilization of older adults. *International Psychogeriatrics*, 28(3), pp. 415-422; Allnock et al. (2015), *op. cit.*; McCarthy-Jones and McCarthy-Jones (2014), *op. cit.*
- 8 Trickett et al. (2011), *op. cit.*; Wosu, A. C., Gelaye, B., and Williams, M. A. (2015) Maternal history of childhood sexual abuse and preterm birth: an epidemiologic review. *BMC Pregnancy and Childbirth*, 15; Hooper, C.-A., and Warwick, I. (2006) Gender and the politics of service provision for adults with a history of childhood sexual abuse. *Critical Social Policy*, 26(2), pp.467-479; Leeners, B., Gorres, G., Block, E., and Hengartner, M. P. (2016) Birth experiences in adult women with a history of childhood sexual abuse. *Journal of Psychosomatic Research*, 83, pp.27-32
- 9 Kamiya et al. (2016), *op. cit.*
